
# Llên natur

**Bwletin 143**
**Ionawr 2020**

*I'r hen a'r ifanc*

**Cylchgrawn amgylcheddol Cymraeg i athrawon ac i'r teulu cyfan**

**Mae pob un eicon ac eitem mewn piws yn ddolen i fwy o wybodaeth**




## *Blwyddyn Newydd mwy Gobeithiol i'r Blaned – i bawb*

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

## Gaeaf 1963




Llun Geoff Charles Bwydo'r anifeiliad yn Frongoch ger Y Bala, 1 Chwefror, 1963


Pwy sy'n ddigon hen i gofio'r gaeaf yma? **Haf Meredydd**

Llond to o eira rhwng y Nadolig a Chalan a ‘nhad a mam wrthi’n ei glirio trwy’r dydd cyn iddo doddi; injan y car yn rhewi’n gorcyn wedi ei adael allan am ddim ond awr; lluwchfeydd chwe troedfedd; ceisio agor y traeniau o’r tŷ efo dŵr berwedig bob dydd; ond llond trol o hwyl ac heb golli fawr o ysgol - bws yn dal i fynd, a’r rhew yn y tai bach (allan wrth gwrs) yn cael ei dorri efo caib bob bore; sglefren wych ar yr iard. Yna’r meirioli yn y diwedd, a phridd y cae yng nghefn y tŷ yn llithro’n un siwrwd i lawr efo’r llif. Gaeaf i’w gofio .... **Nia Mair Watkin Powell**

1963 Fideo


## Dau Geiliog Ffesant





"Dau Geiliog Dandi"
24 Mawrth 2019 yn Llanfrothen **Gwilym a Meryl Roberts**

## Plu eira cynta'r gaeaf



Nico yn yr eira, Mynydd Hiraethog heddiw, Rhagfyr 14.
*Carduelis carduelis* **Alun Williams**

## Traed



Llun traed cwtiar gan Bethan Vaughan Davies. Wrth fy modd efo rhain, Martin Mere, 22 Mawrth 2018.
**Bethan Vaughan Davies**

## ‘Pla’ o chwilod coch y bonddu



Yn dilyn y lluniau o goch y bonddu a dynnwyd gan Bethan Vaughan Davies ar 17 Mehefin ’19, meddwl a fuasai rhain o ddiddordeb: Pelenni adar yn llawn o chwilod coch y bonddu, tynnwyd ar 4 Mehefin ’18 ar forfa Yr Ynys, Talsarnau, mi roedd dwsinau o belenni.

Canllath i ffwrdd mi roedd haid o ydfrain yn bwydo!!! **Llun a stori Gwilym A Roberts**

Anfonwyd hwn o Dursley (Swydd Gaerloyw) gan Kara Stanford, 2 Mehefin ’18 a welodd ‘bla’ o chwilod COCH Y BONDDU ddau ddiwrnod cyn tynnu llun y belen yn Ynys Talsarnau. Mae hyn yn awgrymu cyfodiad sylweddol cyfredol dros ardal eang iawn :

*“We’re camping in a field near Dursley, Gloucs. The place is alive with these beetles. Literally, everywhere hovering about 6 inches. What are they and why???”.* **Kara Stanford**

**Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**

**Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## Ffair Caru Piod




Cyrch piod wythnos gyntaf Mawrth 2015 ym Methel, Ynys Môn. **Wil Williams**

Welsoch chi gyrchoedd piod erioed? Mae nhw'n ddigon cyffredin tua dechrau'r flwyddyn. Y theori yw mai "rhyw garidyms y strydoedd cefn" ydynt, yn chwilio am bartneriaid ac yn mynychu'r Ffair Garu fel rhyw *dating agency*. Cofnodwch i LLên Natur pan welwch chi gyrch, pryd a faint o biod welsoch chi. **Llên Natur**

Dyma hen gofnod gydag ymdrech i esbonio'r ffenomenon gan FJ Stubbs yng nghylchgrawn *British Birds*, 1909:

*On January 24th, 1909, ...in a small wooded valley in southeast Lancashire, we came across a small party of eight birds, and decided to watch them. They were in the branches of a sycamore, and were jumping about and parading in a most ludicrous manner. It would be impossible to describe in a few words the actions of these birds, but there was no room for doubt as to the real meaning of the function. Although crowded together they were evidently in pairs ; one would "show off" to its mate, and when she (?) turned away, he (?) would promptly jump round to be in front of her. Owing to the trim way in which the birds carried themselves (with feathers pressed close to the body) they seemed slimmer, and the legs showed more of the tibiae, than usual. Every few seconds the head-feathers would be rapidly erected and depressed, and the tail uplifted and opened and closed like a fan — an action that I remember noticing in an amorous Jackdaw. The voices of the birds were markedly different from those of other seasons. Sometimes one of these Magpies would leave the others and take a course through the trees in the wood, but it was always followed by a companion. On these journeys they approached within a few feet of our heads; we were greatly struck by the unexpected grace of flight displayed on their amatory excursions.*

**Bwletin Llên Natur 87 - Mai 2015**

Oedd 'na ddim hen goel ymysg ni'r Cymry mai cynnal llys cyfreithiol oedden nhw ar ryw achos o dorcyfraith ymhlith yr adar (cyd-ddigwydd ar ben yr hen goel yn ddiweddarach, o bosib, gwisg ddu a gwyn y bargyfreithiwr a phluen yr aderyn hwn)? **Adrian Roberts**

Onid YDFRAIN yn rhoi eu cynghreiriaid ar brawf a'u dienyddio oedd y goel honno. Ynteu PIOD sydd gen ti yn bendant? **Llên Natur**

A beth am y goel yn Lloegr y dylid cyfarch - neu salutio - yr aderyn sowldiwraidd penuchel hwn a dweud: *"Good morning, Colonel!"* **Adrian Roberts**

A beth am y rhigwm plant *"one for sorrow, one for joy....."* rhywun yn ei gofio? Oes yna un Cymraeg? **Llên Natur**

Na, 'd ydw i ddim yn bendant o gwbwl - ar ddim byd. Posib iawn mai ydfrain sydd yn iawn.Wrth edrych eto ar *"One for sorrow ..."*, etc., fedra i ddim peidio â meddwl am y gân rock'n roll honno ... ? Little Richie, Chuck Berry? **Adrian Roberts**

Un ar bymthag o biod wedi casglu'n swnllyd mewn un coeden yn Port bora ma. Ar ôl chydig o funudau fe wasgarodd yr adar. Ond am gyfnod roeddant yn galw'n uchel ac yn sgwario i fyny at 'i gilydd (26 Ionawr 2018). **Elfyn Lewis**

Chuck Berry


**Cofiwch glicio'r eiconau a'r dolenau am fwy o wybodaeth**

Lluniau FB

## Adnoddau i ysgolion: Amgueddfa Cymru


Mae Amgueddfa Cymru yn cynnig yr adnoddau hyn (Powerpoint) yn y Gymraeg i ysgolion. Gewch chi eu rhannu!

"Nid oes fawr o amheuaeth fod tymheredd y Ddaear yn codi. Y degawd diwethaf oedd y cynhesaf yn y ganrif, a'r ganrif ddiwethaf oedd y cynhesaf yn y mileniwm." **Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC)**




Pwynt Pŵer

## Eu hoff goeden



Ydi, mae hi'r amser yma o'r flwyddyn pan mae drudwyod yn heidio yn eu degau ar y coed palmwydd *Cordyline australis* i wledda ar yr hadau yn yr ardd yn Llandudno! **Gareth Pritchard**

# Yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth

## Noson i'w chofio

Welais i erioed ddarlith a oedd wedi dennu cynifer o wrandawyr a honno gan John Harold (Prif Weithredwr Cymdeithas Eryri) ar y testun "Ail feddwl ail-wylltio" ym Mhlas y Brenin 18 Tachwedd - bu'n rhaid i mi orwedd ymhlith y traed heb weld ond cornel fach o bob sleid am awr a hanner! Doedd 'dan ei sang' ddim yn ormodiaeth i'w ddisgrifio. Braf oedd gweld ystod eang o oedran yn y gynulleidfa, llawer iawn ohonyn nhw yn fyfyrwyr, a rhai ffermwyr mynydd.

Mae'n debyg y bu i'r arlwy blesio a bodlonni'r gynulleidfa, gyda'i gymysgiad o gwestiynau gogleisiol gan John am yr hyn nad ydym yn cwestiynu ddigon: pa anifeiliaid a phlanhigion sy'n wyllt a pha rai sydd ddim?; beth yw ystyr "cynhenid"? Pa bwynt yn ein hanes ôl-rewlifol ddylen ni gymryd fel y man cychwyn? A wnaiff anifeiliaid domestig yr un gwaith yn eu cynefin ag y gwnaeth y rhai gwyllt gwreiddiol - ynteu oes rhaid cael y rhywogaethau gwreiddiol?

Roedd dawn John i ennyn ymateb positif cynulleidfa o unigolion cymysg eu diddordebau a chefndir heb garfannu a pholareiddio ar bwnc hynod o llosg, yn llwyddiant meistrolgar gan arweinydd dawnus (heb son am naturiaethwr heb ei ail). Mi gododd tensiynnau unwaith pan ddangoswyd ddelwedd coch a gwyn "Cofiwch Dryweryn" ac un yn y cwmni yn gofyn beth oedd a wnelo hwnnw â'r pwnc. Roedd ambell ffermwr (mi dybiaf) yn barod iawn i oleuo'r cyfaill yn fyr ac yn fachog!


Wedi cydnabod llwyddiant y noson, o'i fesur wrth yr ymateb positif, doedd y sgwrs yn fy marn i ddim yn "ail-feddwl" dim byd. Trafod syniadau anochel i bob cadwriaethwr gwerth ei halen oedd John yma, i gynulleidfa lleyg - syniadau y bu cadwriaethwyr meddylgar, o alwedigaeth, yn trafod pob dydd o fisoedd cyntaf eu gyrfa. Cefais fy siomi yn yr ystyr bod y siaradwr ddim unwaith wedi cyffwrdd rôl ail-wylltio mewn perthynas â'r Argyfwng Hinsawdd. Mae degawd ar ôl i ni ddod o hyd i sinciau carbon, lle i fyw, tyfu bwyd, cynnal economi ac achub ein rhywogaethau - i gyd ar un talp o dir. Yn anffodus wnaeth fy nghyfaill a chyd-naturiaethwr ymdrin a'r pwnc fel problem o fio-amrywiaeth yn unig. Mae'r pwnc yn llawer mwy na'r hyn a gawsom. Neu felly oedd hi'n ymddangos i mi ymysg y traed yn y tywyllwch!

**Ymateb personol DB**

## Noson arall i'w chofio

Braf gweld bod dau ddigwyddiad cyhoeddus ddiwedd Tachwedd yn llwyddiant yma yng Ngogledd Cymru, nid oherwydd dilyniant uniongyrchol, ond yn hytrach oherwydd y nifer o bobl a gymerodd ran eto. Roedd neuadd arall, yn Venue Cymru Llandudno, yn llawn hefyd i wrando ar yr Athro Dave Goulson ar nos Sadwrn 23 Tachwedd 2019.

Mi wnaeth yr Athro Goulson, yn union â llawer un yn y byd gwyddonol, roi darlun digon clir o'r sefyllfa ddrychinebus y mae pryfed y byd yn ei wynebu heddiw. Mae hi'n amlwg nad yw'r byd gwleidyddol wedi cael gafael ar y broblem, yn enwedig pan mae'n dod i ateb ymarferol i'r defnydd sylweddol o nwyddau niweidiol i fyd natur - yn ogystal â ni.




Yr unig gysur felly yw ymateb pobl na fyddai wedi mynychu y fath ddigwyddiad 10 mlynedd yn ôl, yn ôl Goulson. Y canlyniad yw'r ffaith ein bod ni yn gallu mabwysiadu nifer sylweddol o dechnegau ymarferol iawn, i leihau effeithiau'r argyfwng. Mae safleoedd gwe trylwyr yr Ymddiriedolaeth Natur, trefnydd y noson, yna i'ch arwain.

David Attenborough

## Coedwigoedd Ewrop: y peryglon



Mae mwy a mwy o goed yn yr Almaen yn wael ac yn marw ac mae dwy broblem wedi amlygu eu hunain yn ddiweddar, sef eithafon tywydd a'r niwed y mae pla fel y chwilod-rhisgl yn gwneud. Nid oedd gwledydd fel Ffrainc a'r Almaen yn barod am y newid mawr hwn. Nid yw'r ffaith bod coed rhy ifanc yn cael eu torri yn Ffrainc yn help chwaith.

Yn ddistaw bach, heb i bobl sylwi, mae pethau'n digwydd. Mae Gogledd Ewrop yn boethach ac yn sychach erbyn hyn (ee: astudiaethau gwyddonol CNRS Ffrainc). Mae stormydd mawr yn digwydd yn amlach hefyd a digwyddod hynny yn yr Eidal yn ddiweddar.

Roedd gan goedwigoedd ganrifoedd i ymdopi ers talwm, ond dim mwyach. Mae newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol yn Ewrop, yn bennaf oherwydd newidiadiadau yn llif y jet, ond nid yw patrymau tywydd mae'n achosi mor gyson erbyn hyn oherwydd toddi iâ'r Arctig. Mae hyn, o ganlyniad, yn arwain at mwy a mwy o wyntoedd sych o'r Sahara. Nid yw gwledydd sydd wrthi yn cynllunio o ddifri, ers bron i ganrif, megis Sweden, yn gallu osgoi problemau chwaith. Mae tannau gwylltion a'r chwilen-rhisgl yn broblem yno hefyd. **Cliciwch ar y gwahanol ddolenau i gael darlun cliriach.**

Versailles    France24    Ffrainc a'r Almaen

Gelyn arall ynn Ewrop : *Hymenoscyphus fraxineus*. Mae'r ffwng hyn, sydd yn dod o Asia, wedi cymryd 15 mlynedd yn unig i groesi Ewrop.



## Drudwy truan Môn




**Dyma ychydig o sylwadau am ddigwyddiad sydd wedi synnu llawer ohonom. Mwy na 225 o ddrudwy wedi marw ar ffordd fach wrth ymyl Bodedern yn Ynys Môn. Mwy na chant arall ar y gwrych.**
**Nid dyma'r tro cyntaf chwaith (agorwch yr eiconau isod)!**

Dwi wedi clywed am fellt yn lladd drudwennod yn y gorffenol ond dim syniad eto beth sydd wedi digwydd yma. Mae cyrff wedi eu casglu er mwyn cael *post mortem* manwl. **Iolo Williams**

Cofio gweld rhwbath tebyg iawn i hyn ar Benrhyn Llŷn rai blynyddoedd yn ôl, ond cafwyd rhewynt o'r dwyrain bryd hynny. Rhwng gwrychoedd lôn gul wrth ymyl Llanfihangel Bachellaeth ddigwyddodd y lladdfa. **Haf Meredydd**

Mwy na thebyg mai'r tywydd sydd ar fai - fe aeth stribed o 'wynt a glaw eithriadol o stormus ar draws yr ynys yr adeg yna o'r dydd ac ymlaen ar draws Prydain. Mae sawl engraifft i gael o hyn wedi digwydd o blaen yn lefydd eraill. Ond mi fydd rhaid i ni ddisgwyl am ganlyniad yr ymchwil ar gyrff yr adar, cyn cael esboniad iawn. **Dennis A Jones**

Gwyddom am gampau murmuro anhygoel y drudwy, a'u gallu rhyfeddol i hedfan mewn heidiau niferus iawn heb i'r un aderyn daro yn erbyn aderyn arall. Pa reddf wyrthiol sy'n galluogi hyn... A thybed fod rhywbeth wedi amharu ar y gallu rhyfedd hwn, a hynny ar amrantiad fel bod pob un o'r adar a fu farw wedi plymio ar gyflymder i'r ffordd ... **Tecwyn Owen**

*My husband has seen this before where they just dropped out of the sky, ?from exhaustion, mind you a bit strange all on the same road.* [gweler y ddolen isod] **Elanwy Leaney**

*Yes, it's a phenomenon that has occurred before, in the first decade of this 21st century - birds falling to earth in flocks, and recorded on a world-wide scale. Many theories were advanced, none of which were satisfactory.* **Dafydd Hughes Lewis**

BBC

Llyn Llywenan 1992

Blaenau Ffestiniog 2006

## Y Gornchwiglen ym Môn

Criglan (cniglan ar lafar i mi), Llanfaethlu, Ynys Môn. Byddai nhad yn hel wya cniglod yng nghaea Bodfardden Ddu, Llanfaethlu yn y 50au - rhai efo sbeciau brown arnynt os cofiaf yn iawn. Mi fydda fo'n eu byta i de pnawn - 2/3 ar yr un pryd oherwydd eu bod mor fach. Ond gan nad wyf yn hoffi na byta wyau alla'i ddim tystio i'w blas. **Menna Lloyd Williams**

Chwiglan, chwyglod, cniglod. Nhaid yn hel wya chwiglod, a'i cario ym mhig 'i gap. Byth yn cymryd ond un wy, a hynny os oedd yn nyth â thri ŵy. Gwawr lâs ar y gwynwy wedi 'i berwi mewn salad. Blasus. **John Pierce Jones**

Ym mhig ei gap y byddai fy nhad (o Niwbwrch) yn cario wyau cniglod. **MLW**

Fy modryb (91 oed) yn dweud fel y byddai yn mynd i aros at ei nhain i Benrallt, Paradwys a cherdded i Falltraeth i hel cocos. Finnau yn cofio mynd i aros ati hi i Aberffraw pan yn blentyn yn y 50au a chael wŷ cornchwiglan, wedi ei ffrio. Roedd yn arfer gan rai o'r Berffro fynd i hel wyau cornchwiglod i'w bwyta. ... "yr hogia yn mynd hyd y twyni hefo tunia a gneud tân a berwi'r wyau a'i bwyta. A hefyd - mynd a nhw i'w gwerthu i bobl fawr Rhosneigr". Wedi imi siarad efo mam - hithau'n cofio mynd i aros hefo'i chwaer i Penyrorsedd yn agos i'r Berffro a Hughie (ei brawd yng nghyfraith) yn mynd i'r caeau i hel wyau cornchwiglod a Lisi yn eu ffrio. Mam yn dotio nad oedd y gwynwy yn troi yn wyn ond yn aros yn glir. Hynny yn gof plentyn gen i hefyd a methu dallt pam nad oedd y gwynwy yn wyn. Mam yn eu galw yn griglan neu griglod. **Olwen Evans**

Clywais wedyn fod ciperiaid y stada mawr, Bodorgan, Plasnewydd ayb yn gorfod mynd i hela wya chwiglod a chymryd bob un i frecwast i'w meistri. **JPJ**

Chwiglan - Niwbwrch Môn - yn anffodus cofio mynd i hel wya chwiglod yn y Tywyn a balch o gael hyd iddynt ac wrth gwrs eu bwyta ar ôl mynd adra. **Dot Bailey**



## Egino ar yr hatgib, a’r ffrwyth...



Beth ydyw hwn sydd yn tyfu yma yn y cribwr yma. A Beth ydachi'n galw *teasel* yn Gymraeg? Gwarchodfa Natur Conwy 29 Tachwedd ’19. **Margaret Roberts**

Ia, neu cribau'r panwr, llysiau'r cribau, teilai gwyllt (*Dipascus fullonum*). Dwi'n meddwl fod yr hadau wedi egino cyn disgyn neu gael eu bwyta gan adar - mae'r nico yn arbennig o hoff ohonynt. **Iwan Roberts**



“Rwyf yn prynu tomatos yn siop Weun [Waunfawr] ac yn rhoi ambell un i aeddfedu yn ffenest y gegin. Dyna oedd hwn! Pan dorrais ef yr oedd yr hadau wedi egino a blaen yr egin yn wyrdd. Rhoddais o yn y ffenest hefo dipyn o ddŵr yn y bowlen - a mynd i Gynhadledd Edward Llwyd! Dyma fi yn ôl i rhywbeth na welais o’r blaen [llun, de, 25 Medi ’19 ]“. **Tudur Pritchard**

## Tymhorol (bron i gyd...)



Bore hudolus Rhyd y Bedd
Mynydd Hiraethog
29 Tachwedd 2019 **Llion Griffiths**




Brecwast • 29 Tachwedd 2019
**Dennis A Jones**



Golwg arall ar Tai Llyn • Cwmorthin gydag Iau yn disgleirio uwchben
10 Mawrth 2016 **Keith O'Brien**


## Celf Natur



Celf ar y traeth...
*On a beach in Pembrokeshire....*
*Amazing nativity scene* **Sara Iles**

Creu a mwynhau prynhawn braf ar draeth Porth Ferin. Tra bod Porth Iago yn llawn o ymwelwyr, neb mond yni yma. Nefoedd ar y ddaear.. Lleyn. Haf 2019. **Mary Jones**






## Gan Gillianm Brown








# Adar ar ddiwedd 2019 - Lluniau Eifion Griffiths



Dryw penfflamgoch • Gwarchodfa Natur Conwy • 25 Tachwedd


Pibydd du • Llandrillo yn Rhos • 3 Rhagfyr


Mwyalchen • Gwarchodfa Natur Pwll Brickfield • Y Rhyl • 29 Tachwedd



Socan eira • ardal Rhuddlan • 29 Hydref


Gylfinir • Y Parlwr Du • 30 Hydref


Pila gwyrdd • Gwarchodfa Natur Pwll Brickfield • Y Rhyl • 18 Tachwedd


Gwalch glas • ardal Rhuddlan • 29 Hydref


Bras yr eira ar lan y môr • Llandrillo yn Rhos • 3 Rhagfyr


Hwyaden lostfain • Y Parlwr Du • 30 Hydref


Hwyaden ddanheddog • Gwarchodfa Natur Pwll Brickfield • Y Rhyl •18 Tachwedd


Bras y Gogledd • Y Gogarth • 8 Tachwedd


Coch dan adain • ardal Rhuddlan • 29 Hydref

# Taith Hanes Gareth



## Awn ar y tren bach i ben yr Wyddfa Fawr!



Agorwyd y lein ar y 6ed. o Ebrill, 1896 - bu damwain angeuol a chollwyd yr injan 'Ladas'. (Laura Alice Duff Assheton Smith).

Injan Rhif 2 - 'Enid', a adeiladwyd yn y Swisdir yn 1895. Bellach, mae'n rhedeg ar olew. Enwyd ar ôl 'Enid Assheton Smith', merch y tirfeddianwr.





Hanner ffordd i fyny'r mynydd - 1641tr. uwchben y môr.



Cerddwyr blinedig bron a chyrraedd y copa.



Injan rhif 5 - 'Moel Siabod', ger Gorsaf 'Clogwyn' (2556tr.) yn aros i basio trên oedd ar y ffordd i lawr yn 1905. Hanner milltir i fyny'r trac y digwyddodd y ddamwain ar y diwrnod agoriadol.



Cyn codi'r gwesty a gynlluniwyd gan Clough Williams Ellis yn 1936, roedd nifer o adeiladau ar y copa.




Hysbysebu blawd (yn 1907). 'Snowdon Flake'- yn wyn fel yr eira!

***Gan Gareth Pritchard***

Llên natur



Bron a chyrraedd pen y daith, 'doedd dim ffenestri gwydr ar y trenau erstalwm - dim ond llenni i ymochel rhag y tywydd! Ail agorwyd y lein, wedi'r ddamwain, ar yr 9fed. o Ebrill, 1897.